

Bwrdd Cyflawni Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach (Ff:CCI) Dydd Mawrth 18 Gorffennaf 2023

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd cadeirydd Ff:CCI holl aelodau'r bwrdd i'r cyfarfod. Nodwyd yr ymddiheuriadau.

2. Cymeradwyo nodiadau o'r cyfarfod blaenorol ac adolygu camau gweithredu

Cymeradwyodd y grŵp y nodiadau o'r cyfarfod blaenorol.

3. Cadarnhau Cylch Gorchwyl

Roedd angen mân newid i gylch gorchwyl y Bwrdd Cyflawni. Mae pwynt 3.1 yn nodi RPS/Pwyllgor Fferyllol Cymru sy'n penodi'r cadeirydd sy'n mynd yn groes i 2.1.1 sy'n nodi bod cadeirydd annibynnol yn cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru. Cytunodd y bwrdd y dylid diweddarau hwn i adlewyrchu 3.1.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch atebolrwydd am gyflawni'r Weledigaeth. Cytunwyd nad yw'r Bwrdd Cyflawni yn bersonol gyfrifol ond bod ganddo atebolrwydd ar y cyd â'r proffesiwn yng Nghymru am gyflawni'r Weledigaeth. Teimlwyd y dylai'r Bwrdd Cyflawni graffu a throsolwg gydag atebolrwydd yn y pen draw am y Weledigaeth yn eistedd gyda Phwyllgor Fferyllol Cymru. Cytunwyd y dylid diweddarau'r cylch gorchwyl i adlewyrchu hyn.

Trafodwyd cynrychiolwyr y Gweithgorau gyda rhai newidiadau i'r aelodaeth.

Atgoffwyd y bwrdd bod unrhyw gamau gweithredu sy'n dod gan y gweithgorau y mae angen gwneud penderfyniadau arnynt yn mynd yn ôl i'r bwrdd cyflawni i'w cadarnhau. Dylid hefyd ychwanegu hyn at gylch gorchwyl y Gweithgor er mwyn sicrhau eglurder.

Yn amodol ar yr ychwanegiadau uchod roedd y Bwrdd Cyflawni yn hapus i gadarnhau diweddariadau i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni a mabwysiadu Cylch Gorchwyl newydd y Gweithgor.

4. Gweithgor Gweithlu

Cafodd y Bwrdd Cyflawni yr wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau ar gyfer bwrw ymlaen â'r Gweithgor Datblygu'r Gweithlu. Cydnabuwyd ei bod yn bwysig peidio â dyblygu gwaith ond alinio ac adrodd yn erbyn y nodau. Awgrymwyd y byddai Gweithgor y Gweithlu yn gyfle

i AaGIC roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch i gyflawni'r nodau ac i gael gwiriad synnwyr cyffredinol yn erbyn y nodau, gan y bydd AaGIC hefyd yn cynnal cyfarfodydd ehangach i drafod cyflawni'r Cynllun Gweithlu Strategol.

5. Diweddariad ar y Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol

Ymunodd Hamish Laing, Uwch Swyddfa Gyfrifol ar gyfer y Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol (DMTP) â'r cyfarfod i roi trosolwg o'r portffolio.

Rhannodd Hamish fideo a rhoddodd ddiweddariadau allweddol ar y 4 elfen i'r portffolio;

- Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig Gofal Sylfaenol (EPS)
- Rhaglen Rhagnodi Electronig Gofal Eilaidd a Gweinyddu Meddyginiaethau (ePMA)
- Cofnod Meddyginiaethau a Rennir (SMR)
- Rhaglen Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd

Codwyd cwestiynau gan y grŵp a arweiniodd at drafodaeth grŵp gan gynnwys;

- Amserlen gweithredu'r rhaglen Rhagnodi Electronig yng Nghymru.
- Trosglwyddo Gofal
- Pryderon ynghylch y potensial ar gyfer fferyllfeydd sy'n gwerthu o bell.
- Gofalu am bobl yn eu cartrefi eu hunain ac a oes unrhyw gynlluniau i ddigideiddio cynlluniau gofal fel nad oes rhaid i ofalwyr drawsgrifio.
- Datblygu EPS ar gyfer dosbarthu cleifion allanol o fewn y rhaglen EPS.
- Ymosodiadau seiber a'r systemau wrth gefn os bydd yn mynd i lawr ynghyd â'r opsiwn i ddychwelyd i bapur.

6. Diweddariadau Gweithgorau

Adborth Gweithgor Gofal Fferyllol Di-dor

Rhoddodd y Cadeirydd adborth o uchafbwyntiau allweddol ei grŵp. Cafodd y grŵp ymgysylltu eang a thrafodaeth dda. Cydnabuwyd bod angen casglu data sylfaenol ar rai o'r nodau penodol.

Adborth Gweithgor Gwella Profiad y Claf

Cafwyd adborth ar y drafodaeth o fewn y Gweithgor ar gynnydd y nodau. Eglurwyd bod thema drwy gydol y gwaith yn ymwneud â chapasiti. Cydnabuwyd hefyd bod angen ceisio data gwaelodlin er mwyn deall sefyllfa bresennol nodau penodol.

Adborth Gweithgor Arloesedd a Thechnoleg

Rhoddwyd adborth ar drafodaeth y Gweithgor ynghyd â throsolwg o'r gwahanol brosiectau o fewn y nodau sy'n gysylltiedig â'r Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol.

Rhoddwyd gwybod i'r bwrdd hefyd fod angen trafod 2 nod ar wahân gan nad oedd yr arbenigedd yn y gweithgor oherwydd nad oedd ar gael. Bydd arweinwyr prosiect yn gwahodd arbenigwyr perthnasol i gyfarfod ar wahân.

7. Cyfathrebu a Chynhadledd Diweddariad a thrafodaeth

Diweddarodd RPS y Bwrdd Cyflawni ar gynlluniau ar gyfer cynhadledd ym mis Medi. Mae cynllunio yn dod yn ei flaen yn dda, ac mae llawer o weithwyr fferyllol proffesiynol eisoes wedi ymuno. Gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd Cyflawni yn swyddogol i'r gynhadledd.

Cafodd y bwrdd hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i lansio'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr mewn cynhadledd. Bydd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cael eu gwahodd i gofrestru i fod yn hyrwyddwr PDaHW, gwneud addewid a chael tynnu llun gyda ffrâm pencampwyr. Bydd y wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio. Y cynllun yw cysylltu'r hyrwyddwyr a lledaenu'r gair trwy gylchlythyrau, bwletinau, dysgu mewn ciniawau a sioeau teithiol.